# ANFON MWY O'N TALENT ALLAN O GYMRU

**MAE ANGEN**

- Llawer mwy o athrawon sy'n gallu dysgu trwy'r Gymraeg
- Gweithlu sy'n gallu gweithio trwy'r Gymraeg

Heb hyn, fydd dim gobaith cyrraedd 'miliwn o siaradwyr' erbyn 2050.

**OND**

- Mae 40% o fyfyrwyr Cymru'n astudio mewn Prifysgolion y tu allan i Gymru.[i]
- Mae 65% o fyfyrwyr gogledd Cymru'n astudio y tu allan i Gymru.[ii]
- Mae 60% o ddisgyblion sy'n gallu'r Gymraeg am astudio mewn Prifysgolion y tu allan i Gymru.[iii]

**AC YM MHRIFYSGOLION CYMRU**

- Mae 69% o fyfyrwyr Cymraeg yn astudio'r cyfan trwy'r Saesneg
- Gostyngodd nifer staff dysgu trwy'r Gymraeg gan 11% rhwng 2016/17 a 2021/22.
- Nifer y myfyrwyr sydd yn astudio rhywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg - Y Drindod Dewi Sant - 3,100 (tua 50% o'r cyfanswm); Bangor – 1,405; Abertawe – 680; Aberystwyth – 430; Caerdydd - 400.
- Mae llai na hanner staff sy'n gallu'r Gymraeg ym Mhrifysgolion Cymru yn dysgu trwy'r Gymraeg.[iv]

**AC MAE'R LLYWODRAETH AM ANFON RHAGOR ALLAN O GYMRU**

- Mae'r Llywodraeth yn gwario DROS HANNER BILIWN y flwyddyn ar gyllido myfyrwyr i astudio y tu allan i Gymru. Mae hyn wedi cynyddu 60% mewn 5 mlynedd.
- Mae'r Llywodraeth yn ariannu Cynllun Seren. (gwariwyd £11 miliwn mewn 5 mlynedd) i baratoi ein myfyrwyr mwyaf disglair i astudio ym Mhrifysgolion Grŵp Russell, y mae'r rhan fwyaf ohonyn' nhw yn Lloegr.[v] Un sydd yng Nghymru.

**DAETH YN BRYD NEWID BLAENORIAETHAU**

1. ARIANNU MYFYRWYR I ASTUDIO YNG NGHYMRU
   Mae'r Alban yn talu'r cyfan o gostau astudio myfyrwyr sy'n aros yn yr Alban. Mae Gogledd Iwerddon yn cyfrannu hanner costau myfyrwyr sy'n aros yno.
2. NEWID CYNLLUN SEREN
   Newid Cynllun Seren i wella safonau addysg disgyblion difreintiedig a'u hannog i astudio yng Nghymru.
3. CYNYDDU ASTUDIO TRWY'R GYMRAEG
   Rhoi llawer mwy o bwyslais ar astudio trwy'r Gymraeg, a phwyslais arbennig ar y Gymraeg mewn cyrsiau hyfforddi athrawon.

**Edrychwn ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r syniadau yn y daflen hon. Mae pob croeso i chi anfon eich ymateb i dylanbryn@dyfodol.net**

---

1 Ffigyrau Llywodraeth Cymru 2021-22
2 Ffigyrau UCAS 2022
3 Ffigyrau Comisiynydd y Gymraeg, 2023
4 Ffigyrau Llywodraeth Cymru, 2023
5 Ffigyrau Llywodraeth Cymru, 2024